

Atodiad 1:**Syniadau, awgrymiadau, templedi ac adnoddau defnyddiol:****Mynegai:**

1. Templed llyfr brand
2. Cynllun ac Amserlen Gyfathrebu
3. Creu briff ar gyfer dylunio – beth i'w gynnwys
4. Creu briff ar gyfer gwefan – beth i'w gynnwys
5. Sut i ysgrifennu briff ar gyfer cynnwys fideo
6. Sut i ysgrifennu briff ar gyfer ffotograffiaeth
7. Pa blatfformau cyfryngau cymdeithasol i'w dewis a rhai syniadau defnyddiol ar sut i'w defnyddio
8. Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid / Newyddlenni
9. Defnyddio'r iaith Gymraeg
10. Rhestr Termau
11. Adnoddau Defnyddiol

1. Templed Llyfr Brand

Mae Llyfr Brand yn cynnig set o ganllawiau a fydd yn helpu i esbonio sut mae eich brand yn gweithio. Bydd yn helpu i esbonio a gwahaniaethu hunaniaeth eich brand; sicrhau negeseuon clir a chyson, yn fewnol ac yn allanol a gwella safle ein brand yn gyffredinol. Mae Llyfr Brand yn ceisio ymgorffori hanfod brand – ei weledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd, personoliaeth yn ogystal â'i gynulleidfa darged. Gall eich helpu i ddiffinio eich brand; gellir ei ddefnyddio i'w rannu gyda phartneriaid a gall sicrhau cysondeb yn eich cyfathrebiadau mewnol ac allanol. Os ydych yn bwriadu creu logo neu wefan, mae llyfr brand yn ddogfen ddefnyddiol i chi ei rhannu gyda dylunwyr a datblygwyr hefyd. Dyma dempled i'ch helpu...mae'n debygol o fod yn ddogfen ddefnyddiol wrth weithio ar unrhyw beth sy'n gysylltiedig â brand.

Mae gwybodaeth bellach am y cynnwys y mae angen i chi ei gynnwys a'r pethau y mae angen i chi eu hystyried yn cynnwys

Cyd-destun / Diben Brand

- Gwybodaeth am eich partneriaeth fwyd – pam ei bod yn bodoli a beth rydych chi'n ei wneud

Gweledigaeth:

- Mae Datganiad Gweledigaeth yn ddatganiad un frawddeg sy'n disgrifio'r canlyniad terfynol ysbrydoledig a ddymunir
 - *Ychwanegwch eich un chi yma.*

Cenhadaeth:

- Eich cenhadaeth brand yw sut y byddwch yn cyflawni eich gweledigaeth brand.
Ychwanegwch genhadaeth eich partneriaeth yma

Gwerthoedd:

- **Gwerthoedd Brand:** Yr hyn y mae eich partneriaeth fwyd yn ei gredu a'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn ymddwyn. Mae'r gwerthoedd hyn yn sail i'r holl weithgareddau cyfathrebu ac yn cynnig bachau ar gyfer ymgyrchoedd ac ati.

- Bydd eich gwerthoedd yn darparu arweiniad, cyfeiriad a chefnogaeth i bawb yn y sefydliad yn ogystal â'r rhai rydych yn gweithio gyda hwy. Y rhain yw'r egwyddorion sy'n sail i'r holl weithgareddau a gynhelir.
- Gallech nodi yma y nodweddion **Personoliaeth Brand** y gellid eu priodoli i bob gwerth – a fyddai'n sefydlu naws neu 'ffordd o siarad' unigryw i'r brand a fyddai' helpu i ddatblygu perthnasoedd gyda rhanddeiliaid.

Gwerth 1:

Mae nodweddion personoliaeth y Brand yn cynnwys:

Gwerth 2:

Mae nodweddion personoliaeth y Brand yn cynnwys:

Ac yn y blaen.....

Rhanddeiliaid / Cynulleidfa

- Dylech gynnwys y gronfa ddata rydych wedi'i chreu gan drefnu unigolion / sefydliadau / gwasanaethau cyhoeddus / elusennau ac yn y blaen i gategoriâu penodol y gellir eu hadnabod yn rhwydd, sy'n eich galluogi i flaenoriaethu ymgysylltiad gyda chymunedau penodol o ddiddordeb.

Triniaeth y Brand – ymddangosiad ac ymdeimlad:

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Logo
- Palet lliwiau
- Gwefan
- Delweddau
- Ymgyrchoedd fideo – byrddau cyflwyniad a diweddglô
- Asedau'r cyfryngau cymdeithasol
- Dogfennau e.e. Adroddiad Blynyddol; pamffledi, dogfennau esboniadol ac yn y blaen
- Atodol – stondinau/baneri codi ac yn y blaen

2. Cynllun Cyfathrebu

Ar ei ffurf sylfaenol, mae Cynllun Cyfathrebu yn ddogfen ysgrifenedig sy'n disgrifio uchafbwyntiau, pa wybodaeth y dylid ei rhannu, pryd, sut, i ba gynulleidfa a thrwy ba gyfryngau.

Er mwyn deall y math o wybodaeth yr ydych yn awyddus i'w chyfleu, mae angen i chi nodi nod eich strategaeth gyfathrebu. Mae'n bosibl eich bod yn ceisio rhannu gwybodaeth am eich partneriaeth – yr hyn yr ydych yn ei wneud a sut yr ydych yn ei wneud? Neu efallai eich bod am fod yn benodol a rhannu gwybodaeth am ddigwyddiad, codi proffil eich gwaith neu godi ymwybyddiaeth o brosiect penodol?

Y cam nesaf yw nodi eich cynulleidfa. I bwy ydych yn cyfleu'r neges hon? Dylech greu eich neges gyda'r proffil cynulleidfa mewn golwg. Gallwch addasu eich naws a'ch iaith yn ôl y ffordd yr ydych eisiau i'ch cynulleidfa ymateb i'r neges hon.

Ar ôl i chi ddatblygu'r neges, mae angen i chi nodi'r sianelau y byddwch yn eu defnyddio i estyn allan i'ch cynulleidfa. Gallai'r sianeli amrywio o'r cyfryngau cymdeithasol i newyddlenni ac o ddatganiadau i'r wasg i gynnwys fideo. Dylech ddewis y dulliau a fydd yn eich cynorthwyo orau i gyrraedd eich cynulleidfa.

Dylech ystyried yr adnoddau sydd eu hangen arnoch. Beth yw eich cyllideb ar gyfer cyflawni eich cynllun cyfathrebu yn effeithiol? Pwy fydd yn gyfrifol am ei weithredu? Pa ddeunyddiau fydd eu hangen arnoch?

Ac yn olaf, bydd angen i chi feddwl am yr hyn y byddwch yn ei gyfathrebu; pa mor aml ac a fyddwch yn cyfathrebu am gyfnod penodol o amser neu a yw eich gwaith cyfathrebu yn barhaus. Dyma yw amllder eich negeseuo.

Dyma dempled a allai fod yn ddefnyddiol i chi:

Negeseuon Allweddol: Beth ydych chi eisiau ei ddweud a pham?	Cynulleidfa Darged: Gyda phwy ydych chi eisiau cyfathrebu?	Dulliau / offer cyfathrebu: Sut ydych chi'n bwriadu cyfathrebu gyda hwy? Datganiad i'r Wasg? Cyfryngau Cymdeithasol? Newyddlen? Podlediad? Fideo?	Adnoddau: Beth fydd ei angen arnoch i'ch galluogi i gyfathrebu yn ffordd yr ydych yn dymuno? A oes angen i chi ddyrannu cyllideb?	Cyfrifoldeb: Pwy sy'n gyfrifol am gyfathrebu?	Amllder: Pa mor aml fyddwch chi'n cyfathrebu? Am ba hyd?

3. Creu briff ar gyfer dylunio – beth i'w gynnwys

Mae'n debyg y byddwch yn dymuno ystyried datblygu edrychiad a theimlad brand ar gyfer eich partneriaeth ac er mwyn cyflawni hyn, efallai y byddwch yn dymuno gweithio gyda dylunydd allanol. Byddant yn gofyn i chi am amlinelliad byr o'r manylion craidd a disgwyliadau'r prosiect dylunio ar gyfer brand. Mae briff dylunio da yn gosod y naws ar gyfer prosiect dylunio llwyddiannus drwy roi amlinelliad o'r nodau, ansawdd a'r cyflawniadau. Os ydych wedi creu llyfr brand, bydd yn ddefnyddiol iawn i'w rannu oherwydd bydd yn cynnwys yr holl wybodaeth a manylion

pwysig iawn y bydd eu hangen ar y dylunydd i greu brand gweledol (gan gynnwys logo) ar gyfer eich partneriaeth. Gallwch ddefnyddio'r templed hwn fel man cychwyn:

1. Trosolwg

Beth yw eich prosiect a beth yw ei gwmpas?

2. Amcanion

Pam fod y prosiect hwn yn bwysig? Beth ydych chi'n ceisio ei gyflawni?

3. Cynulleidfa darged

Pwy ydych chi'n ei dargedu? Po fwyaf penodol, gorau oll.

4. Cyllideb

Beth yw'r gyllideb gyffredinol? Sut y dylid ei gwario?

5. Amserlen a chyflawniadau

Rhoch amlinelliad o'r dyddiad a disgrifiad ar gyfer pob ?

4. Creu briff ar gyfer gwefan – beth i'w gynnwys

Mae'n debygol iawn y byddwch yn dymuno creu gwefan ar gyfer eich partneriaeth. Os ydych yn gofyn am ddyfynbrisiau gan ddatblygwyr / dylunwyr gwefannau, byddant eisiau gwybod mwy am eich sefydliad a bydd ganddynt gwestiynau a fydd yn amrywio o bwy yw eich cynulleidfa i beth yw lliwiau eich brand. Felly, mae'n ddefnyddiol creu briff sy'n cynnwys llawer o'r ffactorau yr hoffech iddyn nhw eu hystyried. Dyma ganllaw defnyddiol ar beth y gallech ystyried ei gynnwys:

1. Ysgrifennu cyflwyniad i'r bartneriaeth / y brand a chofio cynnwys rhywfaint o'r gwaith datblygu brand yn y cyflwyniad gan gynnwys:

- Hanes / gwybodaeth allweddol am y bartneriaeth
- Credoau craidd
- Cenhadaeth
- Gweledigaeth
- Gwerthoedd
- Diben
- Safle'r brand
- Llais a naws

2. Ystyried ymarferoldeb y wefan:

- A yw'n ddwyieithog
- Rhwyddineb llywio
- a. Hygyrchedd – dyma ganllaw defnyddiol – [Safonau hygyrchedd ar gyfer LLYW.CYMRU | LLYW.CYMRU](#)
- Adrannau - prif adrannau ac isadrannau
- Adran newyddion
- Adran digwyddiadau
- Ffurflenni cysylltu
- Dolenni cyfryngau cymdeithasol
- Y testun wedi'i gyflwyno'n glir

- Addasrwydd dyfeisiau (bwrdd gwaith, llechen, ffôn symudol)
 - Delweddau
 - Fideos
 - Cais i weithredu (CTA)
3. Mae angen i chi ystyried eich cynulleidfa darged – defnyddiwch yr ymarfer mapio rhanddeiliaid o’r cyflwyniad i’ch helpu yma – bydd y datblygwr / dylunydd bob amser eisiau gwybod ar gyfer pwy y mae’r wefan.
4. Nodwch eich diben, eich nodau a’ch amcanion – gallai’r rhain gynnwys:
- Cynyddu ymwybyddiaeth o’r brand
 - Rhannu storïau
 - Rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau
 - Dod yn hwb gwybodaeth / adnoddau
 - Targedu cynulleidfa benodol
 - Casglu negeseuon e-bost ar gyfer newyddlen
5. Edrychwch ar beth mae eraill yn ei wneud. Treuliwch amser yn ymweld â gwefannau a dadansoddi’r hyn sy’n gweithio a’r pethau llai llwyddiannus. Bydd angen cynnwys dolenni i’r rhain yn eich briff oherwydd byddant yn darparu manylion pellach i ddatblygwr / dylunydd y wefan am y farchnad / ardal yr ydych yn gweithredu ynddi, a fydd yn cynyddu eu dealltwriaeth o’r sector yn gyffredinol.
6. Pennu cyllideb - drwy bennu canllaw ar gyfer cyllideb y prosiect, bydd y datblygwr yn gallu esbonio’n well i chi’r hyn y gellir ei gyflawni.
7. Pennu dyddiad realistig ar gyfer cyflawni.
8. Cofiwch holi am gynnal a chadw ac a ydych yn awyddus i’r datblygwr / dylunydd gynnwys y costau cynnal yn eu dyfynbris.

5. Sut i ysgrifennu briff ar gyfer cynnwys fideo

Efallai y byddwch yn dymuno creu fideo am eich gwaith. Mae yna nifer o gwmnïau cynhyrchu fideo sy’n gweithredu ledled Cymru. Beth am ystyried defnyddio un yn eich ardal chi oherwydd efallai y bydd ganddynt ddealltwriaeth well o leoliadau / ardal / iaith ac yn y blaen. Os ydych yn cysylltu â chwmni cynhyrchu i weithio gyda chi ar brosiect, dyma rai pwyntiau defnyddiol i chi eu hystyried wrth ysgrifennu briff ar gyfer cynnwys fideo:

2. Pam eich bod eisiau fideo?
 - a. Beth yw’r diben?
 - b. Beth ydych chi eisiau ei gyflawni?
3. Gyda phwy ydych chi’n siarad?
 - a. Ystyriwch eich cynulleidfa darged – pwy fydd yn gwylio eich fideo?
 - b. Beth ydych chi eisiau i’ch cynulleidfa ei deimlo / feddwl / ei wneud ar ôl gwylio?
 - c. Ystyriwch hygyrchedd – lliwiau / isdeitlau ac yn y blaen. Dyma ganllaw defnyddiol – [Safonau hygyrchedd ar gyfer LLYW.CYMRU | LLYW.CYMRU](#)
 - ch. Meddyliwch am yr iaith yr ydych yn ei defnyddio – ydych chi’n gwneud dwy fersiwn yn Gymraeg a Saesneg? Neu a fyddwch yn creu’r fideo mewn un iaith gydag isdeitlau yn yr iaith arall?
4. Beth ydych chi eisiau ei ddweud?

- a. A oes gennych chi neges glir?
 - b. A oes cais i weithredu?
5. Ble fydd eich fideo yn cael ei wyllo?
- a. Ystyriwch eich platfformau – YouTube? Gwefan? Cyfryngau Cymdeithasol? Digwyddiadau?
 - b. Mae angen i'ch fideo gyd-fynd yn llwyr â'r lleoedd lle bydd yn cael ei ddsbarthu – gallai hyn effeithio hefyd ar hyd eich fideo e.e. os ydych eisiau ymgorffori eich fideo ar Twitter, mae angen i'ch fideo fod yn fyr a heb fod yn fwy na 2 funud ac 20 eiliad o hyd. Os ydych yn ei lwytho i YouTube, gall fod yn hwy – nid oes unrhyw gyfyngiadau.
6. Pa fath o fideo ydych chi eisiau ei greu?
- a. Fideo wedi'i animeiddio?
 - b. Fideo esboniadol?
 - c. Fideo hyrwyddo?
 - ch. Fideo hyfforddiant?
 - d. Gallech ddarparu dolenni i fideos presennol yr ydych yn eu hoffi, ac ychwanegu nodiadau ar yr hyn yr ydych yn ei hoffi amdanynt a pham.
7. A fyddwch chi'n gwerthuso eich cynnwys fideo? A oes unrhyw Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y byddwch yn eu mesur? Os felly, gallech ystyried mesur:
- a. Safbwyntiau
 - b. Ymgysylltiad gwylwyr cyffredin
 - c. Y nifer sy'n hoffi / rhannu / sylwadau
8. Terfyn amser – pryd yr ydych eisiau derbyn y fersiwn derfynol
9. Cyllideb – mae angen i chi fod yn realistig ac yn agored gyda'r cwmni cynhyrchu ynglŷn â'r gyllideb sydd gennych chi.

6. Sut i ysgrifennu briff ar gyfer ffotograffiaeth

Mae cael y math cywir o ddelweddau yn gallu bod yn ddefnyddiol iawn i'ch helpu i esbonio eich gwaith. Maent yn hollbwysig hefyd ar gyfer creu cynnwys diddorol ar y cyfryngau cymdeithasol a helpu i adrodd eich stori ar-lein. Dylech ystyried gweithio gyda ffotograffydd lleol i dynnu delweddau sydd wir yn adlewyrchu'r gwaith sy'n digwydd yn eich partneriaeth fwyd. Mae'n bosibl y byddant yn gofyn i chi ddarparu briff, felly dyma rai pethau i'w hystyried:

1. Dylech gynnwys gwybodaeth am y bartneriaeth fwyd a'i chefnidir / gwybodaeth am y digwyddiad / y person / prosiect y byddant yn tynnu lluniau ohonynt.
2. Esboniwch ar gyfer beth y byddwch yn defnyddio'r lluniau – beth yw'r negeseuon yr ydych eisiau eu cyfleu? A oes gennych arddull penodol dan sylw?
3. Nodwch y math o ffotograffiaeth sydd ei angen:
 - a. Ffotograffiaeth digwyddiadau
 - b. Sesiwn tynnu lluniau wedi'i llwyfannu
 - c. Croniclo / ymlaciedig
 - ch. Unrhyw ofynion penodol? Dylech gynnwys rhestr o luniau os ydych am fod yn benodol
4. Esboniwch y gynulleidfa debygol a lle bydd y lluniau'n cael eu defnyddio – y wasg / gwefan / cyfryngau cymdeithasol / baneri ac yn y blaen
5. Erbyn pryd y byddwch angen y ffotograffau? Ac ym mha fformat – ydych chi eisiau eu derbyn drwy e-bost? Neu wedi'u hanfon drwy WeTransfer?

6. Nodwch leoliad y sesiwn tynnu lluniau
7. Nodwch unrhyw drefniadau wrth gefn y gallech fod angen eu hystyried e.e. newid lleoliad os bydd yn bwrw glaw
8. Amseroedd dechrau a gorffen
9. Manylion cyswllt ar gyfer rhywun ar y dydd
10. Cyllideb

7. Pa blatfformau cyfryngau cymdeithasol i'w dewis a rhai syniadau defnyddiol ar sut i'w defnyddio

Gall y cyfryngau cymdeithasol fod yn ddull effeithiol iawn o ddisgrifio eich gwaith i bobl; rhannu gwybodaeth; adrodd storïau; hyrwyddo digwyddiadau a chodi ymwybyddiaeth gyffredinol o'ch partneriaeth. Maent i gyd yn llwyfannau am ddim a gallant gynnig ffordd wych i ymgysylltu â chynulleidfaoedd, gan amrywio o aelodau'r cyhoedd, sefydliadau, busnesau, cymunedau a dylanwadwyr.

Dyma'r prif blatfformau cyfryngau cymdeithasol y byddwch yn debygol o'u hystyried a rhai awgrymiadau defnyddiol ynglŷn â'r math o gynnwys i'w ddefnyddio ar bob un.

1. Facebook:

- a. Mae Facebook yn blatfform gwych os ydych yn awyddus i greu a datblygu cymuned
- b. Mae'n cynnwys rhai nodweddion defnyddiol e.e. Digwyddiadau sy'n hawdd eu defnyddio ac sy'n effeithiol iawn
- c. Mae'n cynnwys Messenger lle gall pobl gysylltu â chi'n uniongyrchol
- ch. Gallwch lwytho lluniau / cynnwys fideo ac yn y blaen
- d. Gallwch ddefnyddio Facebook i ffrydio digwyddiadau yn fyw
- dd. Gallwch rannu postïadau – sy'n ddefnyddiol ar gyfer rhannu gwybodaeth am beth mae aelodau'r bartneriaeth yn ei wneud
- e. Dyma ganllaw ar gyfer creu cyfrif: [Creu Cyfrif | Canolfan Gymorth Facebook](#)

Awgrymiadau ar ysgrifennu postïadau diddorol:

- **Er mai fideo yw'r cynnwys sy'n perfformio orau**, mae ymgyrchoedd **effeithiol** ar Facebook yn cynnwys postïadau amrywiol, felly gallech ddefnyddio cymysgedd o ffotograffau, ffeithluniau, testun, gifs, memes, postïadau blog, datganiadau i'r wasg, dolenni ac yn y blaen
- **Yr hyd delfrydol ar gyfer postïad yw tua 40-80 o nodau.** Fel rheol gyffredinol, mae postïadau byr ar gyfryngau cymdeithasol yn perfformio'n well na rhai hir.
- **Gorffennwch gyda chwestiwn.** Mae pobl yn fwy tebygol o ymgysylltu pan fyddwch yn gofyn am eu barn neu eu hadborth.
- **Postiwch gynnwys diddorol, hyd yn oed os nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'ch brand.** Os ydych eisiau cynnal diddordeb eich dilynwyr, mae'n syniad postio mwy na dim ond cynnwys sy'n ymwneud â'ch sefydliad chi. Er hynny, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw at bynciau sy'n gysylltiedig â'ch maes arbenigol chi.
- **Cynnwys gweledol.** Mae'n rhwydd sgrolio heibio testun, ond mae gwaith graffig yn helpu i dynnu sylw pobl wrth iddynt frasdardllen drwy eu ffrwd newyddion. Hyd yn oed os ydych yn cyhoeddi post sy'n destun i bob pwrpas, mae Facebook yn ei gwneud yn rhwydd i chi ei drawsnewid yn waith graffig gweledol.

2. Twitter:

- a. Wedi'u cyfyngu i 280 nod, gall defnyddwyr 'drydaru' gan gynnwys testun, dolenni, ffotograffau neu fideos. Gall y trydariadau hyn fod yn gyfathrebu uniongyrchol neu wedi'u cyhoeddi i brif

- ffrwd. Mae nodweddion eraill yn cynnwys arolwg barn, negeseuon preifat uniongyrchol, momentau Twitter a dadansoddeg fanwl.
- Mae'n wych ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gyflym ac ar gyfer cysylltu neu dagio unigolion / sefydliadau / busnesau allweddol ac yn y blaen.
 - Gallwch ddefnyddio hashnodau # i ddod o hyd i gynnwys digidol ar bwnc penodol e.e. #PartneriaethauBwyd #Cymru #StoriauBwyd
 - Gallwch ddefnyddio hashnod hefyd i gysylltu ag ymgyrchoedd neu ddyddiau ymwybyddiaeth penodol a bod yn rhan o sgwrs ehangach
 - Dyma ganllaw ar gyfer creu cyfrif: [Sut i gofrestru ar gyfer Twitter a chreu cyfrif Twitter newydd](#)

Awgrymiadau ar ysgrifennu trydariat diddorol:

- Mae postio ar Twitter yn galw am ddewis geiriau yn glyfar a chryno er mwyn cyfleu eich neges o fewn gofod cyfyngedig. Gall gymryd ychydig o ymarfer, ond ar ôl i chi ddod i'r arfer, bydd eich trydariadau yn esgyn.
- Blaenlwythwch eich trydariat. Mae'r rhan fwyaf o bobl ar Twitter yn brasddarllen drwy swm aruthrol o gynnwys. Rhowch y wybodaeth bwysicaf ar ddechrau eich trydariat i ddenu eu sylw.
- Yr hyd delfrydol ar gyfer trydaru yw 240+ nod. Yn 2017 cynyddodd Twitter ei gyfyngiad nodau o 140 i 280, ac mae'n ymddangos bod defnyddwyr yn gwerthfawrogi'r gofod ychwanegol i fynegi eu hunain. Os bydd angen mwy na 280 o nodau arnoch, gallwch greu edefyn neu ychwanegu dolen i bostiad blog.
- Defnyddiwch offer am ddim fel Bitly i leihau eich url a gwneud y defnydd gorau o'ch gofod.
- Peidiwch â rhoi gormod o hashnodau. Ceisiwch eu cyfyngu i 1-3 o hashnodau perthnasol.
- Trydarwch gynnwys y gellir ei rannu. Mae cynulleidfa Twitter wrth eu boddau yn ail-drydaru newyddion sy'n torri, ystadegau, dyfyniadau ayb. Mae amseriad yn bwysig ar Twitter – nid ydych eisiau bod yr un olaf i rannu newyddion ddoe.

3. Instagram:

- Facebook sy'n berchen ar Instagram ac mae'n gyfranogwr allweddol arall yn y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae gennych amrywiaeth o wahanol leoedd lle gallwch bostio cynnwys (lluniau a fideos neu reels yn bennaf). Y prif le yw eich 'prif grid', ac mae hyn yn gweithio orau pan fyddwch yn cynrychioli eich brand yn glir a gweledol.
- Mae eich InstaStories yn darparu cyfle arall i chi gysylltu â'ch cynulleidfa. Mae yna lawer o nodweddion gan gynnwys sticeri rhyngweithiol, arolygon barn, a gallwch bostio'n fyw.
- Fel y rhan fwyaf o blatfformau, mae fideos yn effeithiol iawn, ac mae gan Instagram eu hardal ffrydio ei hun o'r enw IGTV.
- Dyma ganllaw ar sut i greu cyfrif: [Cofrestru a Dechrau Arni | Canolfan Gymorth Instagram](#)

Awgrymiadau ar wneud defnydd effeithiol o Instagram:

- Cynnwys gweledol yw prif elfen Instagram, ond nid yw hyn yn golygu na ddylech ddefnyddio testun. Os ydych eisiau i'ch cynulleidfa ryngweithio gyda'ch cynnwys, mae eich geiriau yn cyfri.
- Dechreuwch gyda chlec. Mae Instagram yn caniatáu hyd at 2,200 o nodau. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio na fydd mwy na 125 o nodau yn cael eu harddangos o dan eich ffotograff. Os ydych eisiau i'ch cynulleidfa ddarllen eich post llawn, mae angen i chi eu denu i glicio ar "mwy."
- Defnyddio emojis
- Defnyddio hashnodau perthnasol. Cewch ddefnyddio hyd at 30 hashnod.
- Rhannwch destun hir yn baragraffau. Mae hyn yn gallu bod yn broblem gydag Instagram. Os ydych eisiau cael paragraffau gyda gofod gwyn rhyngddynt, mae'n rhaid i chi bwyso Enter, yna ychwanegu

gofod ar y llinell wag cyn pwyso Enter eto. Ond mae'n werth cyflawni'r cam ychwanegol hwn, oherwydd mae'n anodd darllen blociau mawr o destun.

4. LinkedIn:

- Llwyfan wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer pobl broffesiynol, gall fod yn ddefnyddiol i'ch helpu i godi proffil eich gwaith eich hun a chysylltu ag eraill yn yr un maes gwaith â chi
- Gellir ei ddefnyddio i gysylltu ag arweinwyr busnes neu ddarpar aelodau partneriaeth
- Gall fod yn ddefnyddiol yn nhermau rhannu arfer gorau neu ddathlu cyflawniadau
- Dyma ganllaw ar greu cyfrif: [Creu Tudalen Cwmni LinkedIn | Datrysiaidau Marchnata LinkedIn](#)

Gwneud y defnydd gorau o LinkedIn:

- Un o'r camgymeriadau mwyaf y mae pobl yn eu gwneud yw trin LinkedIn fel math o Facebook.
- Er bod y ddau gyfrwng yn debyg, hyd yn oed y logo glas, mae'r math o gynnwys yn wahanol iawn.
- Mae LinkedIn yn llwyfan rhwydweithio yn bennaf lle bydd pobl fusnes broffesiynol a brandiau busnes yn rhannu gwybodaeth, newyddion a diweddariadau o'r diwydiant.
- Wrth bostio ar LinkedIn, dylech gofio:
 - Mae cynnwys hir yn gweithio'n dda. Peidiwch ag oedi cyn rhannu erthyglau a phostiadau blog ar LinkedIn. Mae'r gynulleidfa hon yn fwy tebygol o dreulio'r amser yn darllen yr hyn sydd gennych i'w ddweud, felly gallwch deipio postiadau hwy nag y byddech yn eu gwneud ar blatfformau eraill fel arall, sydd i'w brasddarllen yn gyflym. Gwnewch yn siŵr eich bod yn drefnus a phroffesiynol.
 - Ychwanegwch lond llaw o hashnodau. Er bod hashnodau yn amlwg iawn ar Instagram a Twitter, nid ydynt wedi gweithio ar Facebook. Mae LinkedIn rhywle rhwng y ddau. Mae'n fuddiol cynnwys hashnodau perthnasol, ond dim gormod ohonynt ac yn ddelfrydol ar ddiwedd eich postiad.
 - Brandiwch eich cynnwys a'ch gwaith graffeg. Mae gweithwyr proffesiynol yn debygol o rannu astudiaethau, ymchwil, ffeithluniau, ystadegau a'r wybodaeth ddiweddaraf am y diwydiant. Os ydych yn postio cynnwys, gwnewch yn siŵr ei fod wedi'i frandio er mwyn i chi gael cydnabyddiaeth pan fydd yn cael ei rannu.

5. YouTube:

- Os ydych yn ystyried creu fideos, mae'n debygol y dylech ystyried sefydlu sianel YouTube hefyd.
- Ystyriwch eich cynulleidfa – pwy ydych chi eisiau eu targedu gyda'ch cynnwys
- Fel llwyfan cyfryngau cymdeithasol sy'n rhannu fideos, mae gan YouTube gynulleidfa aruthrol sy'n chwilio drwy'r llwyfan am gynnwys fel y byddent gyda pheiriannau chwilio arferol
- Mae'n llwyfan defnyddiol iawn ar gyfer cynnal cynnwys fideo hwy y gallech ei gysylltu o sianeli eraill y cyfryngau cymdeithasol a gwefannau
- Dyma ganllaw i greu sianel: [Sut i ddechrau a rheoli eich sianel YouTube – Crewyr YouTube](#)

Dyma rai awgrymiadau defnyddiol wrth ddefnyddio YouTube:

- Ychwanegwch eiriau allweddol i'ch fideo
- Creu disgrifiad manwl o'r fideo
- Creu cryno-lun diddorol ar gyfer y fideo

Awgrymiadau defnyddiol eraill ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol:

Dyddiau Ymwybyddiaeth

Gallech ystyried creu calendr defnyddiol sy'n nodi rhai o'r Dyddiau Ymwybyddiaeth allweddol sy'n cael eu dathlu ar y cyfryngau cymdeithasol, y gallwch chi eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth o'ch gwaith chi. Mae dyddiau fel [Diwrnod](#)

[Bwyd y Byd](#), [Diwrnod Amgylchedd y Byd](#); Dydd Gŵyl Dewi ac yn y blaen yn cynnig ‘bachyn’ ar gyfer postio cynnwys sy’n gysylltiedig â phrosiectau rydych chi’n ymwneud â hwy. Gallwch chwilio am Ddyddiau Ymwybyddiaeth ar-lein ond fel canllaw, dyma ddolen ddefnyddiol: [Upcoming – Awareness Days Events Calendar 2023](#)

Cymwysiadau creu cynnwys defnyddiol

Gall cymwysiadau fel Canva fod yn ddefnyddiol iawn wrth greu cynnwys / dyluniadau / posteri ac yn y blaen. Mae’r fersiwn sylfaenol am ddim ac mae’n cynnig ystod o dempledi dylunio ar gyfer creu cynnwys y cyfryngau cymdeithasol; fideos; cyflwyniadau; logos ac yn y blaen. Dyma ddolen i Ganllawiau Canva i Ddechreuwr: [Canva: Canllaw i ddechreuwr](#)

8. Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid / Newyddlenni

Llwyfannau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid a Newyddlenni

Os ydych yn ystyried anfon Newyddlenni rheolaidd at eich aelodau / rhanddeiliaid, efallai y byddwch yn dymuno cofrestru i dderbyn newyddlen neu lwyfan Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM). Mae’r rhain yn ddefnyddiol iawn am eu bod yn eich galluogi i greu newyddlenni effeithiol drwy gael mynediad at dempledi; maent yn eich galluogi i fewnforio manylion ar gyfer Excel yn uniongyrchol i’r llwyfan a’ch galluogi i anfon newyddlenni yn uniongyrchol at yr holl dderbynwyr ar unwaith. Mae eu pris yn amrywio ond mae rhai’n cynnig mynediad am ddim felly mae’n werth ymchwilio i hyn. Dau o’r llwyfannau mwyaf poblogaidd yw [MailChimp](#) a [Campaign Monitor](#)

9. Defnyddio’r iaith Gymraeg

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw’r ddeddfwriaeth a greodd safonau’r iaith Gymraeg.
- Mae safonau’r iaith Gymraeg yn hyrwyddo ac yn hwyluso’r defnydd o’r iaith Gymraeg, ac yn sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg yng Nghymru.
- Dyma fideo defnyddiol i chi ei ddefnyddio: <https://www.youtube.com/embed?v=ZVFQOUJdv-s>
- Mae’n ofynnol i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio ac ystyried yr iaith Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Dyma ddolen sy’n rhoi rhagor o wybodaeth i chi: [Sefydliadau Cyhoeddus \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#)
- Anogir busnesau ac elusennau hefyd i ddefnyddio ac ystyried y Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Dyma ddolen sy’n rhoi rhagor o wybodaeth i chi: [Busnesau ac elusennau \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#)
- Mae Busnes Cymru yn cynnig gwasanaeth defnyddiol iawn o’r enw Helo Blod, sy’n rhoi cyngor cyflym a chyfeillgar i chi am ddim. Dilynwch y ddolen i ddysgu mwy: [Croeso i Helo Blod | Helo Blod \(llyw.cymru\)](#)
- Mae offer defnyddiol iawn ar wefan Llywodraeth Cymru o’r enw ‘Term Cymru’ – mae’n gronfa ddata chwiliadwy o dermau a ddefnyddir gan gyfieithwyr Llywodraeth Cymru yn eu gwaith bob dydd - [BydTermCymru | GOV.WALES](#)
- Os ydych yn chwilio am eiriadur Saesneg – Cymraeg dibynadwy ar-lein, gallech ddefnyddio ‘Geiriadur yr Academi’. - [Geiriadur yr Academi | The Welsh Academy English-Welsh Dictionary \(geiriaduracademi.org\)](#)
- Os ydych yn cyfieithu darnau o waith hwy a’ch bod eisiau defnyddio cyfieithydd proffesiynol, dyma ddolen i restr sydd ar wefan Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru – y corff cenedlaethol sy’n arwain, datblygu a hyrwyddo’r proffesiwn yng Nghymru: [Hafan \(cyfieithwyr.cymru\)](#)
- Rhybudd – byddwch yn wylidwrus iawn o offer cyfieithu ar-lein!

Rydym hefyd wedi creu rhestr o ymadroddion Cymraeg defnyddiol – rhestr o eiriau / ymadroddion a nodwyd gan rai o’n Lleoedd Bwyd Cynaliadwy fel y rhai sy’n cael eu defnyddio / cyfieithu amlaf.

English	Welsh
Find out more at...	Darganfyddwch fwy yn...
Check out / check it out!	Cymerwch olwg ar / cymerwch olwg!
Want to find out more about the partnership and how you can get involved in our work? Visit	Ydych chi am wybod mwy am bartneriaeth a sut y gallwch chi gymryd rhan yn ein gwaith? Ewch i
Read our latest news item at...	Darllenwch ein heitem newyddion ddiweddaraf yn...
Read more	Darllenwch fwy
Read more here	Darllenwch fwy yma
More information	Mwy o wybodaeth
See attached	Wedi atodi
Please don't hesitate to get in touch with me if you have any questions and look forward to seeing you soon.	Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ac edrychwn ymlaen at eich gweld cyn bo hir.
Please don't hesitate to get in touch if you have any questions and look forward to seeing you soon.	Mae croeso i chi gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiynau ac edrychwn ymlaen at eich gweld cyn bo hir.
Congratulations	Llongyfarchiadau
Registration	Cofrestru
To register	Cofrestrwch
Register here	Cofrestrwch yma
Link in Bio	linc yn y bio
Book now	Archebwch nawr
Welcome / You're welcome	Croeso
How's things? How are you?	Shwd mae?
Food	Bwyd
Health	Iechyd
Sustainability	Cynaliadwyedd
Sustainable	Cynaliadwy
Good Food #GoodFood	Bwyd Da #Bwyda
Food Partnership	Partneriaeth Bwyd
Local Government	Llywodraeth Leol
Food that's good for people and the planet	Bwyd sy'n dda ar gyfer pobl a'r blaned
Local food	Bwyd lleol
Community	Cymuned
Communities	Cymunedau
Help wanted!	Ry'n ni angen help!
Can you help?	A fedrwch chi'n helpu?
Good Food Movement	Mudiad Bwyd Da
News	Newyddion

Digwyddiad	Event
Digwyddiadau	Events
Food system	System Fwyd
About us	Amdanom ni
Project	Prosiect
Bid	Cais
Conference	Cynhadledd
Farming	Ffermio
Farm	Ffarm
Shop	Siop
To shop	Siopa
Environment	Amgylchedd
Nature	Natur
Wildlife	Bywyd gwyllt
Meat	Cig
Vegetables	Llysiau
Sustainable Food Places	Lleoedd Bwyd Cynaliadwy
Food For Life Get Togethers	Dewch at eich gilydd Bwyd am Oes
Welsh Government	Llywodraeth Cymru
Partnership	Partneriaeth
Partner	Partner
Health Board	Bwrdd Iechyd
Collaboration	Cydweithio
School	Ysgol
Diet	Deiet
Dietitian	Deietegydd
Restaurant	Bwyty
Healthy Start	Cychwyn Iach
Resource	Adnodd
Resources	Adnoddau
In Welsh	Yn Gymraeg
Submit	Cyflwyno
Any queries?	Unrhyw ymholiadau?
Response	Ymateb

Rydym wedi cyhoeddi rhestr ddefnyddiol o dermau sy'n gysylltiedig â systemau bwyd ar wefan Synnwyr Bwyd Cymru a allai fod yn ddefnyddiol i chi. Dyma'r ddolen [Glossary-of-Terms.pdf \(foodsensewales.org.uk\)](https://www.foodsensewales.org.uk/Glossary-of-Terms.pdf)

11. Adnoddau Defnyddiol

- Mae Synnwyr Bwyd Cymru yn diweddarau eu hadran **Adnoddau** yn rheolaidd ac yma fe welwch restr o gyhoeddiadau, dolenni, erthyglau ac yn y blaen sy'n berthnasol i'n gwaith.
- [Archif Adnoddau - synnwyrbwydcymru.org.uk](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi cynhyrchu rhywfaint o gynnwys hefyd y gallwch ei ddefnyddio a'i rannu:
- Fideo Systemau Bwyd: <https://youtu.be/CSFKad-a3-8>
- Synnwyr Bwyd Cymru: Fideo esboniadol Lleoedd Bwyd Cynaliadwy - <https://youtu.be/Q-Br4XILIXU>
- Cewch y newyddion diweddaraf, datganiadau a straeon gan Synnwyr Bwyd Cymru drwy ymweld â'r adran Newyddion hefyd.
- [Newyddion - synnwyrbwydcymru.org.uk](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)

Gwaith Systemau Bwyd cyffredinol yng Nghymru:

- Synnwyr Bwyd Cymru – [Synnwyr Bwyd Cymru: Yn cyd-greu system fwyd i Gymru sydd o les i bobl ac i'r blaned - synnwyrbwydcymru.org.uk](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Synnwyr Bwyd Cymru: Datblygu Mudiad Bwyd Da – [Datblygu Mudiad Bwyd Da - synnwyrbwydcymru.org.uk](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Synnwyr Bwyd Cymru: Eirioli Dros Fwyd Da - [Eirioli Dros Fwyd Da - synnwyrbwydcymru.org.uk](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Synnwyr Bwyd Cymru: Newyddion – [Newyddion - synnwyrbwydcymru.org.uk](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Synnwyr Bwyd Cymru: Adnoddau – [Archif Adnoddau - synnwyrbwydcymru.org.uk](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Synnwyr Bwyd Cymru Adroddiad Courgette: [CourgetteReport_Eng.pdf \(foodsensewales.org.uk\)](https://www.foodsensewales.org.uk/CourgetteReport_Eng.pdf)
- Adroddiad Cynnydd Synnwyr Bwyd Cymru 2022-2023: [ProgressReport2023ENG_FINAL.pdf \(foodsensewales.org.uk\)](https://www.foodsensewales.org.uk/ProgressReport2023ENG_FINAL.pdf)
- Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol - Rôl caffael gyhoeddus wrth drawsnewid y system fwyd yng Nghymru: [BRO_SFG_Report_EMAIL_ENG.pdf \(foodsensewales.org.uk\)](https://www.foodsensewales.org.uk/BRO_SFG_Report_EMAIL_ENG.pdf)
<https://www.foodsensewales.org.uk/app/uploads/2023/06/BRO_SFG_Report_EMAIL_ENG.pdf>
- Cynghrair Polisi Bwyd Cymru – [Cynghrair Polisi Bwyd Cymru - synnwyrbwydcymru.org.uk](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Sgiliau Maeth am Oes – [Sgiliau Maeth am Oes®](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Yn 2020, creodd [Bwyd Caerdydd](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk) becyn offer defnyddiol ar gyfer grwpiau a sefydliadau sy'n cymryd rhan yn eu Gŵyl Hydref. Mae'n cynnwys syniadau ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau, sut i ddatlu eich gweithgareddau yn ogystal â chanllaw ar sut i dynnu ffotograffau a fideos da. Cymerwch gipolwg yma: [Pecyn Offer Gŵyl Hydref Bwyd Da | Bwyd Caerdydd](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)

Mentrau / meysydd polisi Llywodraeth Cymru:

- Partneriaethau Bwyd (datganiad i'r wasg cychwynnol ynglŷn â chyllid): [Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cyhoeddi cefnogaeth ar gyfer partneriaethau bwyd ar draws Cymru - synnwyrbwydcymru.org.uk](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Pwysau Iach Cymru Iach: [Strategaeth pwysau iach \(Pwysau Iach Cymru Iach\) | LLYW.CYMRU](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Gweithredu ar Newid Hinsawdd: [Gweithredu ar Newid Hinsawdd Cymru | LLYW.CYMRU](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Bwyd a Diod Cymru: [Bwyd a Diod | Is-bwnc | LLYW.CYMRU](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru: [Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru | LLYW.CYMRU](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Bil Amaethyddiaeth (Cymru): [Bil Amaethyddiaeth \(Cymru\) \(senedd.cymru\)](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Cynllun Ffermio Cynaliadwy: [Cynllun Ffermio Cynaliadwy | LLYW.CYMRU](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Bwyd a Hwyl: ['Bwyd a Hwyl' Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf - CLILC](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: [Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)
- WWF Cymru Ymgyrch Land of Our Future: [Land of Our Future | WWF](https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk)

- Ymgyrchoedd:
 - JamJar PR yw'r asiantaeth sy'n gofalu am gyfathrebu rhanddeiliaid [Pwysau Iach Cymru Iach](#) ar ran Llywodraeth Cymru. Maent yn aml yn chwilio am fentrau sy'n dangos arfer gorau / astudiaethau achos a gallant gynnwys prosiectau sy'n edrych ar hybu bwyta'n iach / Cychwyn Iach / prosiectau coginio / uwchsgilio / NSFL ac ati. Maent yn dod i ymweld â'ch prosiectau ac yn gwneud cyfathrebu ysgrifenedig / cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â chynhyrchu ffilm. Mae'n gyfle gwych ar gyfer rhywfaint o gynnwys wedi'i gynhyrchu'n dda a fyddai'n cael ei rannu'n eang ar draws sianeli a Pwysau Iach Cymru Iach A Llywodraeth Cymru. Byddech hefyd yn gallu defnyddio'r cynnwys a gynhyrchir. Dyma fideo diweddar wnaethon nhw gyda Foothold Cymru yn Llanelli - <https://youtu.be/MLmLHgChWP4>
 - Mae [Gweithredu ar Newid Hinsawdd](#) yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n lansio ymgyrch newid ymddygiad newydd yn fuan i annog pobl i weithredu. Bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar fwyd, yn benodol siopa'n lleol ac yn gynaliadwy, ac mae'r tîm yn chwilio am astudiaethau achos sy'n dangos yr ehangder o fentrau / prosiectau sydd eisoes yn bodoli ledled Cymru, eto, er mwyn rhannu arfer gorau. Rwyf wedi siarad â nhw am ddatblygiad partneriaethau bwyd ledled Cymru ac mae gan y tîm wir ddiddordeb mewn rhoi sylw i rai o'ch straeon. Eto, bydd cwmni cysylltiadau cyhoeddus yn gofalu am y prosiect ar ran Llywodraeth Cymru ac yn gweithio gyda'r prosiectau i gyflwyno pecyn o gynnwys i'w ddsbarthu yn ystod yr ymgyrch.
 - Os oes gennych ddiddordeb mewn cael sylw / cymryd rhan, e-bostiwch sian-elin.davies@wales.nhs.uk a fydd yn gallu cysylltu â'r timau cysylltiadau cyhoeddus perthnasol ar eich rhan

Sefydliadau / mentrau / cynlluniau yng Nghymru:

- Lleoedd Bwyd Cynaliadwy: [Hafan | Lleoedd Bwyd Cynaliadwy](#) neu [Lleoedd Bwyd Cynaliadwy - synnwyrbwydcymru.org.uk](#)
- Adnoddau Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth i chi ddatblygu eich partneriaeth fwyd (Saesneg): [Resources for developing Sustainable Food Partnerships - foodsensewales.org.uk](#)
- Adnoddau Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth i chi ddatblygu eich partneriaeth fwyd (Cymraeg): [Adnoddau ar gyfer datblygu Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy - Synnwyr Bwyd Cymraeg \(synnwyrbwydcymru.org.uk\)](#)
- Food Foundation: [Hafan \(foodfoundation.org.uk\)](#)
- Pys Plîs: [Peas Please | Food Foundation](#) neu [Pys Plîs - synnwyrbwydcymru.org.uk](#)
- Sustain: [Gwybodaeth am fwyd a ffermio cynaliadwy yn y DU | Sustain \(sustainweb.org\)](#)
- Pontio'r Bwlch: [Bridging the Gap | Sustain \(sustainweb.org\)](#) neu [Pontio'r Bwlch - synnwyrbwydcymru.org.uk](#)
- Dewch at eich gilydd Bwyd am Oes: [Food for Life Get Togethers - Food for Life](#) neu [Dewch at eich gilydd Bwyd am Oes - synnwyrbwydcymru.org.uk](#)
- Nerth Llysiau: [Veg Power](#) neu [Nerth Llysiau - synnwyrbwydcymru.org.uk](#)
- Cynghrair Systemau Bwyd Ymwybodol rhan o Raglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig: [Cynghrair Systemau Bwyd Ymwybodol rhan o Raglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig - synnwyrbwydcymru.org.uk](#)
- Cychwyn Iach: [Help i brynu bwyd a llaeth \(Cychwyn Iach\)](#)
- Lawrlwytho deunyddiau i helpu i hyrwyddo Cychwyn Iach: [Newyddion Gwasanaethau Busnes y GIG \(nhsbsa.nhs.uk\)](#)
- Deunyddiau hyrwyddo Cychwyn Iach Cymraeg: [Newyddion Gwasanaethau Busnes y GIG \(nhsbsa.nhs.uk\)](#)

Paratowyd y ddogfen hon gan [Synnwyr Bwyd Cymru](#) ym mis Gorffennaf 2023. Yn gronfa o fewn Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, fe gynhelir Synnwyr Bwyd Cymru gan dîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro.